| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Ebrill 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Gadd, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyllid** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2015/16. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Bod Aelodau'n cymeradwyo mewn egwyddor y defnydd o danwariant gwasanaeth a gynigiwyd gan y Penaethiaid Gwasanaeth, yn amodol ar y sefyllfa Alldro Terfynol (gweler y crynodeb yn Atodiad 5).

Argymhellir bod yr achosion busnes yn ymwneud ag Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu cymeradwyo i'w hargymell i'r Cyngor Llawn fel a ganlyn;

- Cymeradwyo Achos Busnes Llawn ac Amlinellol cyfunol ar gyfer datblygiad Ysgolion Glasdir; a
- Cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2015/16 yn **Atodiad 1**. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £185 miliwn (£188 miliwn yn 14/15). Rhagwelwyd y bydd tanwariant o £1.276 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol (£0.585 miliwn o danwariant ar ddiwedd mis Chwefror). Mae £326k o'r symudiad hwn yn ymwneud â'r defnydd o Gronfa Wrth Gefn Lleoliadau Arbenigol i ariannu gorwariant y Gwasanaeth Plant. Mae £160k pellach yn ymwneud â newid yn y driniaeth gyfrifyddu o Gyfrifon Masnachu'r Gwasanaethau Amgylcheddol a ragwelir. Mae manylion pellach

ynglŷn â'r rhesymau dros yr amrywiaethau a'r risgiau a thybiaethau sy'n sail iddynt wedi'u hamlinellu isod.

Cytunwyd ar arbedion o £7.3 miliwn fel rhan o'r gyllideb ac mae crynodeb o'r arbedion yn **Atodiad 2**. Mae £6.647 miliwn (91%) o'r arbedion eisoes wedi'u cyflawni. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bydd y rhan fwyaf o'r 9% o arbedion sy'n weddill yn cael eu cyflawni erbyn 2016/17 fan bellaf.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae manylion gwasanaethau sylweddol ar gael yn y paragraffau isod. Rhagwelir y bydd nifer o wasanaethau yn tanwario ac mae cynigion wedi'u cynnwys isod o ran sut y mae gwasanaethau'n cynllunio dwyn yr adnoddau hyn ymlaen a'u defnyddio yn y flwyddyn ariannol newydd. Crynhoir y ceisiadau hyn yn Atodiad 5 ac argymhellir bod yr Aelodau'n awdurdodi'r cynlluniau hyn mewn egwyddor, er y bydd diweddariad terfynol yn cael ei roi yn yr adroddiad Alldro Terfynol rhag ofn y bydd unrhyw ragamcanion yn cael eu symud yn hwyr. Mae'n bwysig cael cymeradwyaeth mewn egwyddor gan fod rhai cynigion yn sensitif o ran amser (er enghraifft estyniadau ar gontractau cyflogaeth).

**Gwasanaethau Plant** - Fel y nodwyd drwy gydol y flwyddyn, galwyd ar y Gronfa Wrth Gefn Lleoliadau Arbenigol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn dod o fewn y gyllideb. Mae'r alwad a ragwelir ar y gronfa wrth gefn yn £307k ar hyn o bryd (£326k y mis diwethaf). Gall newidiadau i leoliadau costau uchel gael effaith sylweddol yn ariannol a bydd y risg hon yn parhau i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd.

**Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** – Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd y gwasanaeth yn tanwario o £82k (£54k fis diwethaf) oherwydd gweithrediad cynnar arbedion y gyllideb y cytunwyd arni'n bennaf. Mae'r symudiad ers y mis diwethaf o ganlyniad i gostau cyfreithiol, yn ymwneud ag apêl cais cynllunio a oedd yn mynd yn erbyn y Cyngor, yn llai na'r disgwyl. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu defnyddio'r arian i helpu ariannu 3 swydd tymor penodol i helpu cyflawni gwaith prosiect a chyflenwi cyfnod mamolaeth.

**Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** - Mae nifer o bwysau'n dal i fodoli o fewn y gwasanaeth yn 2015/16 a thu hwnt o ran Parcio, Cludiant Ysgol, ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Fel yr adroddwyd yn fanwl mewn adroddiadau blaenorol, mae camau rheoli wedi cael eu nodi i helpu i liniaru'r risgiau penodol hyn ac mae'r effeithiau hefyd wedi cael eu gwrthbwyso gan nifer o danwario mewn mannau eraill o fewn y gwasanaeth. Yn ogystal â'r camau rheoli hyn, mae gweddill gwasanaethau masnachol y Gwasanaethau Amgylcheddol (gwasanaeth Glanhau Adeiladau

ac Arlwyo) wedi cael eu dwyn i mewn i'r prif gyfrifon refeniw. Nid yw'r addasiad cyfrifo technegol hwn yn cael unrhyw effaith ar y gwaith o redeg y gwasanaethau, ond yn golygu bod y gwarged a ragwelwyd o £160k bellach yn gorfod ymddangos yn yr alldro gwasanaeth, yn lle cael ei drosglwyddo i'r cyfrif Balans Gwasanaethau Amgylcheddol. Felly rhagamcenir y bydd y gwasanaeth yn tanwario o £165k (£37k o orwariant wedi'i adrodd fis diwethaf). Mae'r symudiad o £42k sy'n weddill yn ymwneud yn bennaf ag ailgodiad tâl rhwng yr awdurdodau a oedd yn llai na'r disgwyl, yn ymwneud â Chludiant Gyhoeddus. Cynigir bod y tanwariant gwasanaeth o fewn Priffyrdd a'r Amgylchedd yn cael ei ychwanegu at y Gronfa Wrth Gefn Cynnal a Chadw'r Gaeaf / Tywydd Garw, er mwyn helpu i adeiladu gwrthwynebiad yn erbyn tywydd yn y dyfodol ac i helpu ariannu effaith y tywydd gwlyb garw ar ddiwedd mis Rhagfyr, sydd wedi gadael y Cyngor gydag ôl-groniad o waith cynnal a chadw sy'n ofynnol ar y rhwydwaith ffyrdd.

**Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd -** Rhagamcenir y bydd y gwasanaeth nawr yn gorwario o £53k (£66k o orwariant y mis diwethaf). Mae'r rhan fwyaf o'r gorwariant hwn yn ymwneud â chostau ymadael staff sy'n ffurfio rhan o ailstrwythuro a fydd yn helpu'r gwasanaeth i foderneiddio a dod yn fwy gwydn yn y blynyddoedd i ddod.

**Cyllid, Asedau a Thai -** Rhagamcenir y bydd y gwasanaeth nawr yn tanwario o £87k (tanwariant o £18k y mis diwethaf) sy'n ymwneud â swyddi gwag, gwneud yn fawr o'r gwariant grant ac incwm ychwanegol yn ymwneud ag unedau diwydiannol i staff. Mae'r gwasanaeth wedi gofyn bod y tanwariant yn cael ei ddefnyddio yn 16/17 ar gyfer:

- Cynnal a chadw Iechyd a Diogelwch hanfodol sy'n gysylltiedig â Stadau Amaethyddol (£30k)
- Ôl-groniad cynnal a chadw yn ymwneud ag Ystadau Diwydiannol (£40k)
- Costau ailstrwythuro wedi'u rhagamcanu o fewn y gwasanaeth (amcangyfrif o £17k)

**Gwella a Moderneiddio Busnes -** Rhagamcenir y bydd y gwasanaeth nawr yn tanwario o £300k (tanwariant o £321k y mis diwethaf). Mae'r rhan fwyaf o'r arbedion yn ymwneud â chyflawni arbedion swyddi gwag yn fuan, i baratoi ar gyfer y targed arbediad cyllideb blwyddyn lawn o £100k ar gyfer 16/17, llai o gostau ymgynghori TGCh a chredydau ychwanegol a dderbyniwyd ar gontractau cyfathrebu. Mae'r gwasanaeth wedi gofyn am gael defnyddio'r tanwariant i wrthbwyso costau ailstrwythuro gwasanaeth a gynlluniwyd o fewn TGCh, ymestyn rôl archifydd dros dro o fewn Rheoli Gwybodaeth a buddsoddi mewn hyfforddiant staff.

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden** – Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y gwasanaeth yn tanwario o £146k (£55k o danwariant wedi'i adrodd fis diwethaf). Mae'r symudiad yn ymwneud â rhagamcanion incwm gwell ar draws pob Canolfan Hamdden, ac yn arbennig y Ganolfan Nova, sydd wedi gwneud yn well o ran rhagamcanion darbodus y pedwar mis cyntaf o weithredu. Argymhellir bod y tanwariant yn cael ei ddefnyddio i helpu ariannu'r

oedi o ran caffael offer Allgymorth a'r buddsoddiad pellach mewn gwelliannau a chynnal a chadw Canolfannau Hamdden, er mwyn helpu i gynnal y ddarpariaeth hamdden yn y Sir.

**Gwella Ysgolion a Chynhwysiant** – Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn tanwario o £13k (£43k o danwariant wedi'i adrodd fis diwethaf). Mae'r symudiad o £30k yn ymwneud â chynnydd mewn costau y Tu Allan i'r Sir. Gobeithir y gellir defnyddio'r tanwariant sy'n weddill yn y dyfodol i gynorthwyo ariannu gofynion ychwanegol gwasanaeth o ganlyniad i Fil Drafft Tribiwnlys Addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n nodi cynigion ar gyfer system ddeddfwriaethol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc, 0-25 oed, sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Ysgolion** – Y rhagamcan diweddaraf ar gyfer balansau ysgolion yw £1.322 miliwn (£1.320 miliwn fis diwethaf), sy'n ostyngiad o £2.216 miliwn ar falansau a ddygwyd ymlaen o 2014/15 (£3.538 miliwn). Mae adroddiadau monitro wedi'u cyflwyno i'r adran gyllid yn nodi'r risgiau a'r tybiaethau sydd wedi hysbysu'r rhagamcanion a chrynodebau'r cynlluniau sydd ar waith i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a/neu ddelio â diffygion ariannol a ragwelir. Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd y gyllideb heb ei dirprwyo'n tanwario o £5k.

**Datblygu Busnes ac Economaidd** - Rhagamcenir y bydd y gwasanaeth ar hyn o bryd yn tanwario o £148k (tanwariant o £149k y mis diwethaf). Mae'r tanwariant o ganlyniad i oedi mewn gwaith prosiect o fewn nifer o feysydd fel y nodir mewn adroddiadau monitro blaenorol. Nid oes unrhyw ostyngiad yn nifer neu faint o gamau gweithredu a gynigir yn y cynlluniau gwariant a disgwylir costau yn awr yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, lle gobeithir bydd y gwasanaeth yn gallu cario cyllid priodol drosodd. Gellir cadarnhau bod cynlluniau wedi'u cytuno er mwyn sicrhau defnydd llawn o'r tanwariant hwn yn 2016/17 a fydd yn cynnal y momentwm gyda Datblygu Economaidd a gwaith cymorth busnes, a chyflymu cynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau Datblygu Economaidd yn y Cynllun Corfforaethol.

**Corfforaethol** – Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd tanwariant yn y cyllidebau Corfforaethol o £388k (tanwariant o £374k y mis diwethaf). Mae'r symudiad yn ymwneud â Ffioedd Archwilio is na'r disgwyl yn ymwneud â gwaith Ardystio Grantiau.

Fel yr amlygwyd dros y misoedd diwethaf, mae risg ynghylch tebygolrwydd cyfraniadau pellach yn cael eu codi i wasanaethu rhwymedigaethau'r cyngor (ynghyd â'r rhan fwyaf o rai eraill yn y DU) o ran y cyn Gwmni Yswiriant Mutual Municipal. Roedd cynghorau yn gyd-aelodau o'r cwmni ac maent wedi etifeddu rhwymedigaethau ar ôl iddo ddirwyn i ben. Mae'r rhwymedigaethau yn ymwneud â hawliadau hanesyddol. Mae hyn yn dilyn £393k a dalwyd yn 2014/15. Rydym bellach wedi derbyn hysbysiad y bydd yn ofynnol i ni dalu swm ychwanegol o tua £262k. Er na fydd hyn yn daladwy tan Mai 2016 mae'n ofynnol i ni gydnabod hyn fel darpariaeth yng nghyfrifon 2015/16. Bydd yn cael ei ariannu o gronfa wrth gefn y Gronfa Yswiriant.

**Risgiau Gwasanaeth Eraill / Tybiaethau** - Mae nifer o risgiau a thybiaethau yn parhau i fod ac mae risg o hyd y bydd rhagamcanion yn newid rhwng nawr

a'r alldro. Bydd unrhyw amrywiadau sylweddol hysbys yn cael eu hadrodd ar lafar i'r Cabinet yn y cyfarfod.

Ar ddechrau 2015/16 roedd cronfeydd wrth gefn arian parod y **Cynllun Corfforaethol** yn £17.413 miliwn. Gan ganiatáu ar gyfer ariannu a gwariant sydd wedi eu rhagamcan yn ystod y flwyddyn, amcangyfrifir y bydd balans y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn yn £2 filiwn.

Trafododd y Grŵp Buddsoddi Strategol (SIG) ofynion cyllido prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif Ysgol Gynradd Rhuthun ar 28 Ionawr. Mae GBS wedi gwneud argymhelliad i'r Cabinet fod £4.8 miliwn wrth gefn yn cael ei neilltuo i gefnogi ysgolion Glasdir a chynlluniau Ysgol Carreg Emlyn, a ariennir o ryddhau cyllidebau refeniw o fewn y prosiect. Cafodd y cronfeydd wrth gefn hyn eu cymeradwyo gan y Cabinet ar 16 Chwefror. Mae SIG bellach wedi derbyn a chymeradwyo'r achosion busnes diweddaraf ar gyfer y prosiectau hyn ac wedi argymell bod yr achosion busnes yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo ar gyfer argymhelliad gan y Cabinet i'r Cyngor Llawn eu cymeradwyo. Mae'r fersiynau diweddaraf o'r achosion busnes yn cael eu cynnwys yn atodiadau 6 a 7.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor yn **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £45.3 miliwn ac mae'r gwariant hyd yma yn £41.4 miliwn. Hefyd yn Atodiad 3 mae'r gwariant arfaethedig o £24 miliwn yn 2015/16 ar y **Cynllun Corfforaethol**. Yn **Atodiad 4** mae diweddariad ynglŷn â'r prif brosiectau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf.

Y **Cyfrif Refeniw Tai** (**CRT**). Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn tybio y bydd cynnydd mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £198k o'i gymharu â chynnydd yn y gyllideb o £168k. Rhagamcenir y bydd balansau CRT yn £2.049 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagolwg gwariant y Cynllun Cyfalaf Tai yw £5.4 miliwn. Bydd unrhyw lithriad yn y cynllun cyfalaf yn cael ei ddwyn ymlaen i'r Cynllun Cyfalaf Tai ar gyfer 2016/17.

**Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Chwefror, roedd cyfanswm benthyciadau'r cyngor yn £190.165 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.95%. Roedd balansau buddsoddi yn £12 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.61%.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Cynhyrchwyd asesiad o effaith manwl fel rhan o broses gosod y gyllideb a adroddwyd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2014.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Yn ogystal ag adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi cael ei hystyried gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, cyfarfodydd briffio'r Cabinet a briffio'r Cyngor. Cafodd cynigion penodol eu hadolygu gan bwyllgorau archwilio a bu ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd i ystyried effaith cynigion y

gyllideb. Mae'r cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd a chynhaliwyd trafodaethau penodol gyda'r Heddlu. Fe ddiweddarwyd pob aelod staff ynghylch y broses gosod y gyllideb, ac fe ymgynghorwyd yn llawn â staff a fydd yn cael eu heffeithio, neu fe fydd ymgynghori'n digwydd â nhw, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau AD y Cyngor. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur trwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau y mae'n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau nawr ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.